# SL(5)071 – Cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Cefndir a Phwrpas

Cyhoeddir y cod ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y "Ddeddf"). Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a geir yn y cod hwn.

## Gweithdrefn

Mae'r weithdrefn negyddol ddrafft a nodir yn adran 146 o'r Ddeddf yn darparu:

– na chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod ymarfer hwn nes i 40 o ddiwrnodau fynd heibio ers y dyddiad y gosodwyd y drafft gerbron y Cynulliad, ond

– na chaniateir i Weinidogion Cymru ei ddyroddi os bydd y Cynulliad, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, yn penderfynu na ddylai'r cod ymarfer gael ei ddyroddi.

## Craffu dan Reol Sefydlog 21.7

Nid yw'r cod ymarfer yn offeryn statudol felly nid yw'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried y cod ymarfer ac yn cyflwyno adroddiad arno o dan:

– Reol Sefydlog 21.7(i): fel is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Cynulliad;

– Rheol Sefydlog 21.7(v): fel mater deddfwriaethol cyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

## Pwyntiau adrodd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod ymarfer.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

8 Mawrth 2017